

Rhif: WG27364



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

Cynigion i ddiwygio meini prawf cymhwysedd  
Cyfarwyddwyr Anweithredol ar Fwrdd  
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus  
Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 01 Rhagfyr 2015  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 11 Ionawr 2016

**Trosolwg** Rydym yn cynnig newid meini prawf cymhwysedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol ar Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn caniatáu ar gyfer cystadleuaeth fwy agored a theg.

**Sut i ymateb** Dylid ymateb drwy ateb y cwestiynau sydd wedi'u rhestru ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau hyn ar gael ar ffurflen ymateb ar wahân i'r ymgynghoriad sydd yn safle ymgynghori Iechyd a Gofal Cymdeithasol gwefan Llywodraeth Cymru. Dylid anfon pob ymateb i:

[Publichealthsponsorshipteam@wales.gsi.gov.uk](mailto:Publichealthsponsorshipteam@wales.gsi.gov.uk)

Neu drwy bost am ddim i:

RHADBOST RTLK-KURC-ELKJ  
Stephen Barry  
Swyddog Nawdd Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Is-adran Iechyd y Cyhoedd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

**Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

[Publichealthsponsorshipteam@wales.gsi.gov.uk](mailto:Publichealthsponsorshipteam@wales.gsi.gov.uk) neu ffoniwch 02920 823328

**Diogelu data**

Sut byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y

materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn ni'n cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel rheol, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych chi'n dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni drwy lythyr wrth ichi anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynigion

### Pa newidiadau penodol ydym yn eu cynnig?

- Rydym yn cynnig gwneud *Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygiad) 2015 (Atodiad 1)*. Rydym yn teimlo bod modd cyfiawnhau cyfnod ymgynghori byrrach (6 wythnos) oherwydd bwriad y cynigion (ehangu yn hytrach na chyfyngu) a'u ffocws cyfyng ar un sefydliad yn y GIG.
- Bydd y rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 sy'n darparu'r canlynol ar hyn o bryd:
  - i) rhaid i'r Cyfarwyddwr Anweithredol o Awdurdod Lleol ar Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru gael ei enwebu gan awdurdod lleol neu awdurdodau lleol yng Nghymru;
  - ii) rhaid i'r Cyfarwyddwr Anweithredol o Brifysgol ar Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru gael ei enwebu gan brifysgol yng Nghymru a bod ag arbenigedd addysgu neu ymchwil ym maes iechyd y cyhoedd; a
  - iii) rhaid i'r Cyfarwyddwr Anweithredol o'r Sector Gwirfoddol ar Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yn gyflogai neu'n aelod o fudiad yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.
- Cynigir bod y meini prawf cymhwysedd ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Anweithredol Awdurdod Lleol yn cael eu llacio drwy ganiatáu i ymgeiswyr sydd â phrofiad o awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am y swydd heb iddi fod yn ofynnol iddynt gael eu henwebu.
- Cynigir hefyd bod y meini prawf cymhwysedd ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Anweithredol Prifysgol yn cael eu llacio drwy ganiatáu i ymgeiswyr sydd â swydd mewn prifysgol sydd â chysylltiad ag iechyd wneud cais am y swydd heb iddi fod yn ofynnol iddynt gael eu henwebu. Mae hyn yn dileu'r gofyniad i ymgeiswyr fod ag arbenigedd addysgu neu ymchwil ym maes iechyd y cyhoedd a dal swydd mewn Prifysgol yng Nghymru.

- Nod y diwygiad arfaethedig i'r rôl Cyfarwyddwr Anweithredol Sector Gwirfoddol yw ehangu'r meini prawf presennol drwy ddileu'r gofyniad i'r ymgeisydd fod yn gyflogai neu'n aelod o fudiad gwirfoddol yng Nghymru. Bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais o'r tu allan i Gymru.

### **Pa ganlyniadau ydym yn eu rhagweld?**

- Bydd y diwygiad yn arwain at gystadleuaeth agored a theg i recriwtio Cyfarwyddwyr Anweithredol Awdurdod Lleol, Prifysgol a Sector Gwirfoddol ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Drwy ddileu rhai o'r meini prawf penodol, bydd yn ehangu cwrddpas yr ymgeiswyr ac yn helpu i sicrhau bod y bobl fwyaf priodol yn cael eu penodi i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

### **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ymddiriedolaeth gan y GIG yw Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd y cyhoedd annibynnol yn broffesiynol er mwyn gwarchod a gwella iechyd a lles poblogaeth Cymru. [www.publichealthwales.wales.nhs.uk](http://www.publichealthwales.wales.nhs.uk)

### **Y Rheoliadau**

Mae'r Rheoliadau (**Atodiad 2**) yn datgan y gofynion aelodaeth ar gyfer y Bwrdd.

Hefyd maent yn datgan y bydd isafswm o 11 o Gyfarwyddwyr (ac eithrio'r cadeirydd annibynnol) sy'n cynnwys dim mwy na 6 Chyfarwyddwr Anweithredol a 5 Cyfarwyddwr Gweithredol.

### ***Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygiad) 2011***

Roedd *Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygiad) 2011* yn dileu'r gofyniad am Gyfarwyddwr Anweithredol o Undeb

Llafur. Roedd y gofyniad hwn yn profi'n rhwystr o ran recriwtio i'r swydd a thrwy ei ddileu roedd yn caniatáu i gynrychiolaeth yr Undebau Llafur ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth weithredu yn unol â'r Llawlyfr ar gyfer Cynrychiolwyr Undebau Llawr ar Fyrddau Ymddiriedolaeth (a oedd yn golygu nad oedd cynrychiolydd yr Undeb Llafur yn Gyfarwyddwr Gweithredol nac Anweithredol ar y Bwrdd).

Er mwyn cynnal yr uchafswm o chwe (6) Chyfarwyddwr Anweithredol ar y Bwrdd, recriwtiwyd Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol wedyn i gynrychioli'r gymuned ehangach yng Nghymru.

### **Cyfarwyddwyr Anweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ar hyn o bryd mae swyddi Cyfarwyddwyr Anweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru fel a ganlyn (sylwer nad yw'r holl deitlau swyddi wedi'u nodi'n fanwl yn y Rheoliadau):

- Cyfarwyddwr Anweithredol Prifysgol – enwebir gan Brifysgol yng Nghymru sydd ag arbenigedd addysgu neu ymchwil ym maes iechyd y cyhoedd.
- Cyfarwyddwr Anweithredol Awdurdod Lleol – enwebir gan Awdurdod Lleol neu Awdurdodau Lleol yng Nghymru.
- Cyfarwyddwr Anweithredol Sector Gwirfoddol – cyflogai neu aelod o fudiad yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.
- 3 Chyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol – annibynnol ar unrhyw fudiad ac yn cynrychioli'r gymuned ehangach yng Nghymru.

### **Tasgau sylfaenol y Bwrdd**

Dyletswydd y Bwrdd yw ychwanegu gwerth at y sefydliad, gan ei alluogi i ddarparu ei wasanaethau a sicrhau gwelliannau oddi mewn i'r gyfraith a heb achosi niwed. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu fframwaith o fesurau rheoli a llywodraethu da er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn ffynnu ac yn ehangu. Mae llywodraethu da'n rhan bwysig o sicrhau bod newid a moderneiddio'n gallu digwydd a bod gwasanaethau gwerthfawr, o ansawdd uchel, yn cael eu darparu.

## Beth yw rôl Cyfarwyddwr Anweithredol?

Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn bartneriaid cyfartal ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gyda'u cydweithwyr Gweithredol. Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Anweithredol chwarae rhan lawn yn y llywodraethu ar yr Ymddiriedolaeth, yn glinigol ac yn gorfforaethol. Mae disgwyl i Gyfarwyddwyr Anweithredol gynnig barn annibynnol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad, penodiadau allweddol, edrych ymlaen ac atebolrwydd.

Seilir cyfraniad y Cyfarwyddwyr Anweithredol at waith y Bwrdd ar eu hannibyniaeth, eu profiad a'u gwybodaeth yn y gorffennol, a'u gallu i sefyll yn ôl o'r rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd. Hefyd rhaid i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gyfrannu at y penderfyniadau corfforaethol a wneir gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'u derbyn.

Mae disgwyl i Gyfarwyddwyr Anweithredol weithio'n agos â sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill a gwneud yn siŵr bod barn cleifion, gofalgwyr, teuluoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol yn rhan lawn o'r gwaith o helpu i ddatblygu, gwella a dylanwadu ar wasanaethau.

## Beth yw'r prif faterion?

- Mae'r Rheoliadau (**Atodiad 2**) yn datgan ar hyn o bryd ei bod yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Anweithredol o Awdurdod Lleol gael ei enwebu gan awdurdod lleol neu awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r adborth anffurfiol a dderbyniwyd gan randdeiliaid wedi dynodi bod y meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer y swydd Cyfarwyddwr Anweithredol Awdurdod Lleol yn cyfyngu ar ddarparu ymgeiswyr, gan ddarparu rhwystr o bosib o ran recriwtio a heb dryloywder o ran cystadleuaeth agored a theg. Mae'r cysylltiadau cadarn rhwng llywodraeth leol ac ieuchyd y cyhoedd yn golygu ei bod yn bwysig cael cynrychiolaeth o lywodraeth leol yng Nghymru ar Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae'r Rheoliadau yn datgan ar hyn o bryd ei bod yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Anweithredol o Brifysgol gael ei enwebu gan brifysgol yng Nghymru ac i'r enwebai fod ag arbenigedd addysgu neu ymchwil ym maes ieuchyd y cyhoedd.

- Mae'r un dadleuon am dryloywder a chystadleuaeth agored a theg yn berthnasol i'r swydd Cyfarwyddwr Anweithredol Prifysgol. Hefyd, teimlir nad oes angen y gofyniad am i ddeiliad y swydd fod ag arbenigedd addysgu neu ymchwil ym maes iechyd y cyhoedd mwyach, oherwydd datblygiad y sefydliad yn ystod y 6 blynedd diwethaf ac, yn benodol, y wybodaeth ehangach am iechyd y cyhoedd sydd wedi'i hymgorffori ledled y sefydliad yn awr. Teimlir hefyd nad oes angen cyfyngu'r swydd i'r rhai sy'n gweithio mewn prifysgolion yng Nghymru.
- Mae'r Rheoliadau yn datgan ar hyn o bryd ei bod yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Anweithredol o Sector Gwirfoddol fod yn gyflogai neu'n aelod o fudiad yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.
- Nid yw swydd Cyfarwyddwr Anweithredol y Sector Gwirfoddol wedi'i chyfyngu gan enwebiad ond ar hyn o bryd mae'n gyfyngedig i'r rhai sy'n gyflogeion neu'n aelodau o fudiad yng Nghymru. Teimlir nad oes angen i'r swydd fod yn gyfyngedig i'r rhai yng Nghymru.
- Mae'n rhaid i ni gynnal cydbwysedd o Gyfarwyddwyr ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth o blaid y Cyfarwyddwyr Anweithredol er mwyn sicrhau her, profiad a phersbectif angenrheidiol ar gyfer yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan y Bwrdd.

## Cwestiynau

Mae'r cwestiynau canlynol wedi'u rhestru ar ffurflen ymateb yr ymgynghoriad:

- 1.) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad bod rhaid i unrhyw ymgeisydd ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Anweithredol gydag Awdurdod Lleol gael ei enwebu gan awdurdod lleol neu awdurdodau lleol yng Nghymru?
- 2.) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig bod rhaid i unrhyw ymgeisydd am y swydd Cyfarwyddwr Anweithredol Awdurdod Lleol allu dangos tystiolaeth o brofiad o awdurdodau lleol yng



Nghymru, er mwyn dangos bod ganddo'r persbectif gofynnol  
ar gyfer y rôl?

- 3.) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad bod rhaid i unrhyw ddarpar ymgeisydd ar gyfer y swydd Cyfarwyddwr Anweithredol gyda Phrifysgol gael ei enwebu gan brifysgol yng Nghymru?
- 4.) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad bod rhaid i ymgeiswyr fod yn arbenigwyr addysgu neu ymchwil ym maes iechyd y cyhoedd a newid hwn am ofyniad ehangach i ymgeiswyr ddal swydd mewn prifysgol sy'n gysylltiedig ag iechyd?
- 5.) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ganiatáu i ymgeiswyr o unrhyw brifysgol wneud cais am y swydd Cyfarwyddwr Anweithredol Prifysgol?
- 6.) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ganiatáu i ymgeiswyr sy'n gyflogeion neu'n aelodau o unrhyw fudiad o'r sector gwirfoddol wneud cais am y swydd Cyfarwyddwr Anweithredol o'r Sector Gwirfoddol?
- 7.) Ydych chi'n cytuno y byddai'n rhaid i unrhyw ymgeiswyr llwyddiannus ddangos gwybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd perthnasol i Gymru, a dealltwriaeth ohonynt?
- 8.) Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?